



ADRODDIAD YR ARHOLWR

LEFEL 2

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL:
EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

IONAWR 2021



Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynnyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynnyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 2

Ionawr 2021

UNED 1: HYBU IECHYD A LLESIANT DRWY GYDOL CAMAU BYWYD

Sylwadau Cyffredinol

Yn gyntaf, dylid canmol canolfannau am baratoi'r ymgeiswyr yn dda dan yr amgylchiadau digynsail. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gynnig ar yr holl gwestiynau gan ddangos dealltwriaeth o gynnwys yr uned hon.

Cwblhaodd pob ymgeisydd y papur, sy'n awgrymu bod y papur wedi caniatáu digon o amser i ymgeiswyr ysgrifennu ymatebion manwl.

Roedd rhai ymgeiswyr wedi camddarllen cwestiynau a byddai rhai ymgeiswyr wedi elwa o ganolbwyntio mwy ar eiriau gorchymyn y cwestiynau. Argymhellir bod ymgeiswyr yn ailddarllen ac yn gwirio eu hymatebion, os bydd amser yn caniatáu.

Yn y cwestiynau sy'n werth mwy, yr ymgeiswyr a ddangosodd broses feddwl glir yn eu dull o strwythuro'u hymatebion oedd yn ennill marciau yn y band uchaf. Roedd tystiolaeth o ddefnyddio cofeiriau i gefnogi galw i gof; er enghraifft, PIES. Yn gyffredinol, gwnaeth ymgeiswyr elwa ar y cymorth cof hwn.

Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn cynnig ymatebion wedi'u datblygu i'r holl gwestiynau a oedd yn gofyn am fwy na nodi neu roi datganiad, ac anaml y gwelwyd pwyntiau byr neu bwyntiau bwled. Prin iawn oedd yr atebion un gair neu frawddegau byr, gan awgrymu bod ymgeiswyr yn ymgysylltu â'r cwestiynau.

Roedd gwybodaeth yr ymgeiswyr am y fanyleb yn dda; roedd gwybodaeth yr ymgeiswyr am y meysydd cynnwys yr ymdriniwyd â nhw yn y cwestiynau i'w gweld yn dangos dealltwriaeth gyffredinol dda. Roedd gallu'r ymgeiswyr i gymhwyso gwybodaeth at y sefyllfaoedd penodol yn y senarios yn amrywio, yn dibynnu ar y senario. Mae'n rhaid ymarfer cymhwyso gwybodaeth mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.

Roedd sillafu a gramadeg yn elfen gadarnhaol i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr ac roedd llawysgrifen yn ddarllenadwy yn y rhan fwyaf o achosion.

Sylwadau ar gwestiynau unigol

Cw.1 Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu nodi'r camau bywyd yn gywir, a oedd yn braf ei weld.

Cw.2 (a) Roedd ymatebion yn dangos gwybodaeth dda am siartiau canraddau, gan nodi y byddai mesuriadau hyd/taldra, oed, a chylchedd y pen yn cael eu cynnwys ar siart canraddau.

(b) Rhoddwyd amrywiaeth o awgrymiadau o ran pam gallai'r baban Vikram fod o dan ei bwysau. Awgrymodd ymgeiswyr enedigaeth gynamserol, esgeulustod ac afiechyd yn gywir. Collodd rhai ymgeiswyr farciau am atebion ailadroddus oedd yn canolbwyntio ar fwydo annigonol a deiet gwael.

Cw.2 (c) Roedd yn ymddangos bod y cwestiwn hwn yn heriol, gan gyfyngu ar y marciau a ddyfarnwyd. Ychydig o atebion oedd yn ateb yn gywir mai pwrpas cofnod sgiliau tyfu yw mesur datblygiad ac nid twf.

Cw.3 Atebodd rhai ymgeiswyr y cwestiwn hwn am hunangysyniad yn dda, gan ennill marciau llawn. Roedd ymatebion llawer o ymgeiswyr yn amwys. Mae'r ffactorau sy'n llywio hunangysyniad yn faes pwysig o'r fanyleb (maes testun 1.3) ac argymhellir bod digon o oriau dysgu yn canolbwyntio ar y testun hwn.

Cw.4 (a) a (b)

Diffiniodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr fodel rôl yn gywir ac roeddent yn gallu rhoi agwedd emosiynol ar ddatblygiad ar gyfer y cam bywyd llencyndod.

(c) Dangosodd ymatebion wybodaeth ac asesiad da o fanteision gweithgarwch corfforol a bod yn aelod o dîm i berson ifanc. Rhoddwyd marciau uwch i ymgeiswyr am atebion manwl o ansawdd da yn asesu'r canlyniadau ar ddatblygiad corfforol a chymdeithasol.

Cw.5 (a) Nodwyd effeithiau deiet anghytwys yn gywir gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr. Rhai o'r ymatebion poblogaidd oedd gordewdra, clefyd y galon, diabetes a blinder.

(b) Roedd tystiolaeth o ddealltwriaeth sylfaenol o bwrpas cyfrifo BMI; fodd bynnag, nid oedd rhai ymgeiswyr yn cydnabod bod y berthynas rhwng pwysau/taldra yn offeryn mwy manwl gywir na phwysau yn unig.

(c) Esboniodd ymgeiswyr newidiadau i ffyrdd o fyw ar gyfer gwella iechyd a llesiant, gydag enghreifftiau yn cynnwys bwyta'n iach, cynllunio prydau ac ymarfer. Rhoddwyd marciau am ymatebion manwl a oedd yn benodol i'r senario, er enghraifft, aelodaeth teulu yn y ganolfan hamdden leol.

Cw.6 (a) Roedd y cwestiwn hwn yn ymddangos yn heriol, gyda marciau cyfyngedig yn cael eu dyfarnu am esbonio cyfranogiad gweithredol (maes testun 1.3 y fanyleb).

(b) Roedd ymgeiswyr yn gallu amlinellu'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys mewn cynllun gofal a chymorth, a rhoddwyd marciau am fanylion personol a darpariaeth gwasanaeth.

(c) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr asesu pwysigrwydd cynllun gofal a chymorth. Rhoddwyd marciau yn y band isaf i ymgeiswyr a ddisgrifiodd gynllun gofal. I ennill marciau yn y band uchaf, roedd angen i ymgeiswyr asesu pwysigrwydd y cynllun a thynnu casgliadau o ran iechyd a llesiant Arthur.

Cw.7 (a) a (b)

Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol, gan nodi bod plant y teulu Thomas yn byw mewn teulu estynedig. Enillodd ymatebion a oedd yn esbonio effeithiau cadarnhaol a negyddol y strwythur teuluol hwn farciau yn y band uchaf.

- Cw.7 (c)** Roedd rhywfaint o dystiolaeth o ymgeiswyr yn camddarllen y cwestiwn, gan ddisgrifio manteision y gweithgaredd penwythnos ar lesiant y plant yn hytrach na'r fam-gu a'r tad-cu, fel roedd y cwestiwn yn ei ofyn.
- Cw.8 (a)** Roedd llawer o ymgeiswyr yn methu diffinio'r term 'stigma' ac ni wnaethant roi cynnig ar y cwestiwn hwn.
- (b)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr, gan esbonio yn fanwl y gwasanaethau y gall CAMHS eu darparu i gefnogi Seren. Dyma rai o'r ymatebion poblogaidd: addysgu technegau a strategaethau ymdopi; atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol perthnasol eraill; a chyfleoedd i siarad â phobl eraill mewn sefyllfaoedd tebyg.
- (c)** Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn. I ennill marciau llawn, roedd angen i ymgeiswyr esbonio pwrpas codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl yng Nghymru. Mae hyrwyddo ac ymgyrchoedd iechyd a llesiant presennol yn faes testun (1.4) pwysig o'r fanyleb y dylid mynd i'r afael ag ef wrth ddysgu yn y dyfodol.
- (ch)** Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am gymharu'r defnydd o'r teledu a'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol. Yn aml, roedd ymatebion yn gyfyngedig i oedran y gynulleidfa darged ddisgwyliedig ac ychydig iawn o gymharu a wnaed fel arall. Ni fydd ymgeiswyr sy'n ffurfio ateb fel rhestr pwyntiau bwled yn ennill marciau yn y band uchaf oni bai bod yr atebion wedi'u hamodi neu wedi'u hesbonio. Dylid annog i beidio â defnyddio atebion pwyntiau bwled.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Dan amgylchiadau digynsail ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad hwn.
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gyfyngiadau amser.
- Dylid annog ymgeiswyr i ddarllen y cwestiynau'n ofalus ac i ymateb i'r geiriau gorchmynnol. Argymhellir eu bod yn prawfddarllen eu gwaith.
- Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gallu deall ffactorau sy'n llywio hunangysyniad a sut mae cyfranogiad gweithredol, cynhwysiant, gwydnwch a hunangysyniad yn cefnogi unigolion wrth ymdopi â digwyddiadau mewn bywyd ac ymateb iddyn nhw (maes testun 1.3 y fanyleb).
- Mae hyrwyddo ac ymgyrchoedd iechyd a llesiant presennol yn faes pwysig y dylid mynd i'r afael ag ef wrth ddysgu yn y dyfodol (maes testun 1.4 y fanyleb).
- Enillodd yr ymgeiswyr lai o farciau os gwnaethant lunio rhestri yn hytrach na rhoi atebion mwy manwl.
- Gwneir pob ymdrech i ddarparu digon o le i ymgeiswyr ysgrifennu eu hymatebion i bob cwestiwn. Mewn cyfresi yn y dyfodol, dylid atgoffa ymgeiswyr i nodi rhif y cwestiwn a'r isadran yn glir pan fydd atebion yn parhau ar dudalennau parhad.
- Mae deunyddiau asesu enghreifftiol ar gael ar wefan CBAC i ymgeiswyr weld sut mae'r cwestiynau'n cael eu geirio a'r hyn y gellir ei arholi. Mae adnoddau ar-lein CBAC, gan

gynnwys technegau adolygu, hefyd yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol ac, am arweiniad pellach, mae deunyddiau DPP ar gael ar wefan ddiogel CBAC.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk